



Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0193/15

David Melding AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Tachwedd 2015

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref 2015, ynglŷn â'r defnydd o'r weithdrefn negyddol ar gyfer is-ddeddfwriaeth ym Miliâu'r Llywodraeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Yn ystod ein tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor i Ddeddfu yng Nghymru, tynnwyd sylw at y ffaith y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r weithdrefn briodol ar gyfer pob is-ddeddfwriaeth a gynhwysir ym Miliâu'r Llywodraeth. Dewisir rhwng y weithdrefn negyddol a'r weithdrefn gadarnhaol ar sail rhinweddau pob achos, ac yn y pen draw bydd amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar y dewis, gan gynnwys natur y pŵer, ei gwmpas tebygol, ac o dan ba amgylchiadau y caiff y pŵer ei ddefnyddio.

O ystyried bod y mater rydych yn ei godi yn gysylltiedig ag amryw o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad a luniodd y Pwyllgor yn dilyn ei Ymchwiliad diweddar, rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried eich llythyr fel bod y mater yn cael sylw fel rhan o'n ymateb i'r argymhellion hynny.

Yn gywir

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.